| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Chwefror 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Teitl:** | **Treth y Cyngor 2017/18 a Materion Cysylltiedig** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 31 Ionawr 2017, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ychwanegol mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'i materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

3.2 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.

3.3 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.

3.4 Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel a'u cyflwynir yn Atodiad C.

3.5 Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel a nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.

**4. Manylion yr adroddiad**

Oherwydd bod angen cymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r gost o godi a dosbarthu gofynion Treth y Cyngor yn cael ei diwallu o fewn adnoddau presennol.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Cwblhawyd asesiad cyffredinol o effaith yn rhan o broses cyllideb y Cyngor ac roedd yn ffurfio rhan o bapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 31 Ionawr 2017.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Mae proses y gyllideb yn eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Cyfarfod Briffio'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Cynhaliwyd gweithdai'r gyllideb gydag aelodau ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Hysbyswyd yr Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgorau Corfforaethol. Mae Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn yn adolygu arbedion ac yn asesu eu heffaith ar y cyhoedd. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hystyried gan y Cabinet ac fe gymeradwywyd y gyllideb gan y Cyngor Llawn ar 31 Ionawr 2017.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth Gyngor. Mae'r rheoliadau'n rhagnodol ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu'n uchel ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.